EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020

# Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020

Pwyllgor Monitro'r Rhaglen - Cyfarfod 8
Dydd Iau 12 Gorffennaf 2018 11.15 a.m.
Prif Ystafell Gyfarfod, Gwesty Holland House, Caerdydd

| | | Papurau |
|---|---|---|
| | 11:00 – 11:15<br>Te a Choffi wrth gyrraedd | |
| 1 | 11:15 – 11:20<br>Croeso, Agor y Cyfarfod a Chyflwyniad - Sioned Evans a Stephen Blair Cyd-gadeiryddion | |
| 2 | 11:20 – 11:30<br>Cofnodion Cyfarfod 7 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen gan gynnwys Pwyntiau Gweithredu - 23 Tachwedd 2017 Abertawe - Sioned Evans | IWPMC1420(08)01 |
| 3 | 11:30 – 11:45 Diweddariad ar Bontio'r UE – Sioned Evans | Llafar |
| 4 | 11:45 – 11:50 Egwyl Goffi | |
| 5 | 11:50 - 12:05<br>Adroddiad Datblygu a Diweddariad ar y Rhaglen gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth - Linda Weaver | IWPMC1420(08)02 |
| 6 | 12:05 – 12:15<br>Diweddariad Cyfathrebu – Jane McMillan | IWPMC1420(08)03 |
| 7 | 12:15 – 12:30<br>Diweddariad Ymchwil, Monitro a Gwerthuso - Kathryn Helliwell | IWPMC1420(08)04 |
| 8 | 12:30 – 13:00 Cyflwyno Prosiect - CHERISH | |
| 9 | 13:00 – 13:15 Unrhyw Fater Arall/Dyddiad y Cyfarfod Nesaf | |
| 10 | 13:15 - Cinio | |
| | Cau | |

**Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014 - 2020**

Cofnodion y Cyfarfod - Cyfarfod 8 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen

Dydd Iau 12 Gorffennaf 2018 – 11:15am

Prif Ystafell Gyfarfod, Gwesty Holland House, Caerdydd

## Eitem Agenda 1 - Croeso, Agor y Cyfarfod a Chyflwyniad

1. Croesawodd y Cadeirydd, Sioned Evans (SE), yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i'r rhai a oedd wedi teithio o Iwerddon. Croesawyd Stephen Blair (SB) i'w gyfarfod pwyllgor monitro olaf cyn iddo ymddeol yn fuan.

2. Diolchodd y cyd-gadeirydd SB i'r aelodau am ddod ac i WEFO am gynnal y cyfarfod.

3. Nododd SE fod cworwm yn y cyfarfod gyda'r isafswm (13) o aelodau'n bresennol. Atgoffodd hi'r aelodau o bwysigrwydd mynychu cyfarfodydd a gofynnodd i'r aelodau aros am y cyfarfod cyfan.

4. Cyhoeddodd SE ddau brosiect newydd sydd wedi'u cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor, yn cynnwys cyllid ar gyfer Catalyst (PA1 €1.35m ERDF) a Llwybrau Celtaidd (PA3 €1.59m ERDF) gan ddod â lefel yr ymrwymiad i €44 miliwn.

5. Nododd SB fod y rhaglen Iwerddon Cymru wedi cyrraedd cam tyngedfennol ac mai'r nod oedd sicrhau ymrwymiad llawn o fewn y chwe mis nesaf.

## Eitem 2 ar yr Agenda – Cofnodion Cyfarfod 7 y Pwyllgor Monitro gan gynnwys Pwyntiau Gweithredu - 23 Tachwedd 2017 Abertawe

6. Adolygodd SE gofnodion drafft cyfarfod 7 y Pwyllgor Monitro. Ni chafwyd unrhyw sylwadau neu newidiadau a chadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

7. Adolygodd SE y pwyntiau gweithredu o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor:

    - **Pwynt gweithredu 23.11.2017/1 – aelodau a restrir i ddarparu manylion pellach am eu gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â phrosiectau Rhaglen Iwerddon Cymru y maent yn gysylltiedig â hwy.**
    Heb ei gwblhau - JS i weithredu.

    - **Pwynt gweithredu 23.11.2017/2** – Cadarnhaodd LW y byddai'r cofnodion yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r rheswm pam y gwnaeth y Partneriaid ar y Cyd dynnu'n ôl o'r prosiect Exportable**.**
    Cwblhawyd

- **Pwynt Gweithredu 23.11.2017/3** – JS i ystyried unrhyw orgyffwrdd / dryswch posibl rhwng prosiectau Llwybrau Celtaidd ac Arfordiroedd Celtaidd Chwedlonol.
  Nid yw'n berthnasol mwyach gan fod y prosiect Arfordiroedd Celtaidd Chwedlonol wedi ei wrthod gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen

- **Pwynt gweithredu 23.11.2017/4** – Jason Thomas i ymchwilio ymhellach i'r cysylltiadau posibl rhwng cyfrif Twitter Croeso Cymru a chyfrif Iwerddon Cymru.
  Mae'r Gyd-ysgrifenyddiaeth wedi bod yn gweithio gyda Croeso Cymru

- **Pwynt gweithredu 23.11.2017/5** – David Kelly/JS i sicrhau pobl i lenwi'r llefydd gwag ar y Pwyllgor Monitro.
  Dywedwyd bod cynnydd da wedi'i wneud gydag un lle gwag ar ôl ar y Pwyllgor

- **Pwynt gweithredu 23.11.2017/6 -** JS i ail-drydar negeseuon yr UE.
  Cwblhawyd

**Eitem 3 ar yr agenda – Diweddariad ar Bontio'r UE**

8. Rhoddodd SE ddiweddariad ar bontio'r UE o safbwynt Llywodraeth Cymru, gan nodi'r posibilrwydd cynyddol o adael heb gytundeb a'r ansicrwydd cynyddol ynghylch y tebygolrwydd y bydd cyfnod pontio. O safbwynt WEFO, y bwriad oedd cynllunio ar gyfer cytundeb a dim cytundeb drwy anelu at ymrwymiad llawn y rhaglen erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Byddai hyn yn sicrhau bod prosiectau naill ai'n dod o dan y cyfnod pontio neu warant y Trysorlys os byddwn yn gadael yr UE heb gytundeb. Nododd SE fod angen mwy o eglurder am y warant ac roedd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Trysorlys i sicrhau hyblygrwydd ar gyfer rheoli'r Rhaglen ar ôl mis Mawrth 2019. Yn ogystal, roedd pryderon wedi'u mynegi ynghylch y goblygiad y byddai prosiectau rhwng cyrff cyhoeddus h.y. cyhoeddus i gyhoeddus yn cael eu cynnwys. Mae pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn pwyso ar y Trysorlys i egluro beth fydd y warant yn ei gwmpasu ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

9. Holodd aelodau am hyd a lled y warant, gan fynegi pryderon penodol am yr effaith ar ymgysylltiad awdurdodau lleol â phrosiectau a goblygiadau i gyllidebau awdurdodau lleol os nad oedd y warant yn cwmpasu cyrff cyhoeddus, y graddau y byddai prosiectau TA yn cael eu cwmpasu, materion ymarferol ffrydiau cyllid i sefydliadau yng Nghymru ac Iwerddon o dan y rhaglen a statws WEFO fel awdurdod rheoli os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Cafwyd sicrwydd gan SE fod trafodaethau ar y materion hyn yn parhau a bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, yn ceisio cael darlun clir o'r sefyllfa ar fyrder er mwyn deall yn well pa gynlluniau wrth gefn i'w rhoi ar waith. Nododd yr aelodau fod yr ansicrwydd parhaus yn peryglu'r rhaglen yn ei

chyfanrwydd a gofynnwyd i hyn gael ei ychwanegu at gofrestr risg y rhaglen. Cydnabu MA y farn hon a chytunodd i ystyried darparu'r gofrestr risg i aelodau fel papur i'w nodi.

**Pwynt gweithredu 12.07.18/1 – MA i ystyried rhannu'r gofrestr risg gydag aelodau'r Pwyllgor Monitro**

10. Pwysleisiodd SE fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y berthynas rhwng Iwerddon a Chymru, yn cynnwys lefel y masnachu rhwng y ddwy wlad a'u bod wedi ymrwymo i gefnogi'r cydweithredu hwn yn y dyfodol. Yng Nghymru, mae ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit yn parhau ac mae ymrwymiad parhaus i raglen drawsffiniol Iwerddon Cymru ac i Gydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) yn fwy cyffredinol, yn rhan greiddiol o'r gweithgarwch hwn.

*11.* Nododd SB fod Rheoliadau drafft yr UE ar gyfer y cylch nesaf o raglenni'n nodi y bydd cydweithredu morol yn symud o Linyn A i Linyn B (trawswladol) felly ar gyfer rhaglen yn y dyfodol, hwyrach y bydd effaith ar gwmpas daearyddol.

*12.* Nododd DPER y cydweithredu cadarnhaol a'r cysylltiadau rhagorol sydd wedi'u meithrin rhwng Iwerddon a Chymru. Er y byddai Llywodraeth Iwerddon yn dymuno gweld rhaglen yn y dyfodol, roddent yn cydnabod bod angen ystyried opsiynau at y dyfodol yng ngoleuni rheoliadau a gyhoeddir a'u heffaith bosibl ar ffurf rhaglenni'r dyfodol a'r cyfleoedd ar eu cyfer.

**Eitem 5 ar yr Agenda - Adroddiad Datblygu a Diweddariad ar y Rhaglen gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth**

13. Adolygodd LW adroddiad rhaglen y Gyd-ysgrifenyddiaeth gan dynnu sylw at y prif negeseuon a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau.

- Mae STREAM newydd gael ei gymeradwyo drwy borth Pwyllgor Llywio'r Rhaglen. Mae hynny'n mynd â lefel yr ymrwymiad i gyfanswm o €48 miliwn a 61%
- Bydd pob prosiect PA3 yn y maes Cynllunio Busnes yn mynd gerbron Pwyllgor Llywio'r Rhaglen ym mis Tachwedd
- Yn ddiweddar gwahoddwyd ECHOES i'r maes Cynllunio Busnes, gan wireddu gorymrwymiad damcaniaethol ar gyfer PA2 o £600,000
- Pwysleisiodd y Comisiwn bwysigrwydd cyflymder y gwaith o gyflwyno hawliadau a gwario oherwydd bod yna dargedau ariannol sydd angen eu bodloni ar gyfer fframwaith perfformiad 2018.
- Teimlwyd mai dim ond allbynnau meddal oedd gan y dangosyddion ar gyfer PA2 a PA3 ac felly nid oeddent yn addas i ddangos yr effaith go iawn roedd y gweithrediadau'n ei chael ar lawr gwlad. Nododd yr MA fod prosiectau'n cynnal eu gwerthusiadau eu hunain ac y gellid bwrw golwg ar y wybodaeth o'r rhain a'i hadrodd i'r Pwyllgor Monitro.

**Pwynt Gweithredu 12.07.18/2 - bydd JS yn ystyried darparu diweddariad ar effaith cyllid yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Monitro yn y dyfodol.**

14. Bydd Chriss O'Connell yn gweithio gyda'r MA i archwilio mecanwaith adrodd ar gyfer themâu trawsbynciol y gellir eu cyflwyno i'r Pwyllgor Monitro.

15. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi cynnydd da, yn enwedig o dan PA3.

16. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch awydd yr MA i roi gormod o ymrwymiad, dywedwyd wrth yr aelodau y bu hyn yn destun trafodaeth o fewn WEFO. Nododd yr MA y byddai'n rhaid i'r rhaglen orymrwymo er mwyn iddi gael gwell cyfle o sicrhau'r gwariant uchaf posib, a byddai hynny'n gofyn am gefnogaeth Llywodraeth Iwerddon hefyd.

17. Gan gyfeirio at y fframwaith perfformiad, soniodd y Comisiwn y gallai taliadau gael eu hatal os na chyflawnwyd cerrig milltir rhaglenni. Roedd yn bwysig bod yr MA/JS yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r swyddog desg ar y mater hwn; fel yr oedd hi, roedd yna bosibilrwydd cryf na fydd y rhaglen yn bodloni ei cherrig milltir PA3 a dylid trafod hyn yn yr hydref. Mae yna botensial i addasu'r rhaglen i ailosod targedau canol tymor cyn diwedd y flwyddyn; fodd bynnag, byddai angen cyfiawnhau hyn.

**Eitem 6 ar yr Agenda – Diweddariad ar Gyfathrebu**

18. Gofynnodd yr MA i'r aelodau nodi'r papur cyfathrebu a chadarnhaodd fod y rhaglen yn gwneud cynnydd da o ran defnyddio Facebook, Twitter a chyfryngau cymdeithasol eraill i hyrwyddo'r rhaglen a phrosiectau. Mae yna ystadegau cadarnhaol yn y papur sy'n nodi beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma a chynlluniau at y dyfodol. Nododd yr MA fod y rhaglen IW yn cael llawer mwy o sylw yn y cyfryngau na'r rhaglenni prif ffrwd.

**Eitem 7 ar yr Agenda - Diweddariad Ymchwil, Monitro a Gwerthuso**

19. Cyflwynodd Kathryn Helliwell (KH) y papur ac eglurodd fod y strategaeth monitro a gwerthuso wreiddiol ar gyfer y Rhaglen Iwerddon Cymru wedi'i halinio'n agos â'r strategaeth brif ffrwd; mae'r diweddariad a roddir heddiw wedi'i deilwra'n briodol.

20. Tynnodd KH sylw at y newidiadau arfaethedig i'r ddogfen strategaeth, gyda dau newid allweddol - y cyntaf yw gohirio gwerthuso'r rhaglen am flwyddyn. Byddai'r gwerthusiad canol tymor yn dechrau eleni ac mae'r ail newid yn ymwneud ag amsriad y gwerthusiad terfynol a fydd yn digwydd yn 2021.

21. Nid oes unrhyw newidiadau i'r cwestiynau gwerthuso, ond mae'r dull o fynd i'r afael â nhw wedi'i addasu.

22. Bydd grŵp llywio'n cael ei greu ar gyfer y gwerthusiad a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o DPER a SRA.

23. Cadarnhaodd KH fod y dangosyddion yn y strategaeth monitro a gwerthuso yn sefydlog ac na ellir eu diwygio. Dyma'r dangosyddion y bydd angen i'r MA gyflwyno adroddiad arnynt yn yr Adroddiad Gweithredu Blynyddol nesaf.

24. Bydd WEFO yn casglu gwybodaeth ansoddol hefyd.

*25.* Dywedodd SE y byddai geiriad y ddogfen yn cael ei adolygu gan y tîm strategaeth ac y byddai dogfen ddiwygiedig yn cael ei dosbarth i gael penderfyniad drwy weithdrefn ysgrifenedig.

**Pwynt Gweithredu 12.7.18/3 - Bydd strategaeth monitro a gwerthuso ddiwygiedig yn cael ei dosbarthu i aelodau drwy weithdrefn ysgrifenedig er mwyn ei hadolygu a'i chymeradwyo.**

**Eitem 8 ar yr Agenda – Cyflwyno Prosiectau – CHERISH**

26. Croesawodd SE Clare Burgess, Sarah Davies a Louise Barker o'r prosiect CHERISH a roddodd gyflwyniad gweledol ar y prosiect.

**Eitem 9 ar yr Agenda – Unrhyw Fater Arall**

27. Diolchodd SE i SB am ei ddeunaw mlynedd o ymroddiad i'r rhaglen Iwerddon Cymru, ei ymrwymiad i gydweithredu a chyflawni effeithiol gydol y tair rhaglen Iwerddon Cymru. Dymunodd SE bob llwyddiant i SB yn y dyfodol.

28. Diolchodd SE i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau cadarnhaol a chaeodd y cyfarfod.

**Atodiad 1**

**Yn Bresennol:**

Dr Alastair Davies – Adran Arloesi, Llywodraeth Cymru
Jason Thomas – Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru
David Lettelier – Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Cynghorydd Phil Baker – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru De Cymru
Y Cynghorydd Ronnie Hughes – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Gogledd Cymru
Jessica Williams – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Yr Athro Richard Davies – Addysg Uwch Cymru, Prifysgol Abertawe
Chriss O'Connell – Cyfle Cyfartal Llywodraeth Cymru
Barbara Burchell – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Gogledd Cymru – Sylwedydd
Gwyn Evans – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru De Cymru – Sylwedydd
Sean O'Connor – Adran Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon Iwerddon
Y Cynghorydd Pip Breen – Cyngor Cynulliad Rhanbarthol De Iwerddon
Y Cynghorydd Pamela Kearns – Cyngor Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain a Chanolbarth Iwerddon
Hugh O'Reilly – WHEEL
Dave Corcoran – Adran Cyfathrebu, Gweithredu ar yr Hinsawdd a'r Amgylchedd Iwerddon
Siobhan O'Higgins – Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio Iwerddon
Lorna O'Brien - Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio Iwerddon – Sylwedydd
Y Cynghorydd Pamela Kearns (Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain a Chanolbarth Iwerddon) yn eilydd i'r Cyng. Brian McDonagh.

**WEFO**

Sioned Evans – Prif Weithredwr WEFO
Jane McMillan, Awdurdod Rheoli WEFO
Linda Weaver, Pennaeth y Cyd-ysgrifenyddiaeth
Patrick Lilly, Cyd-ysgrifenyddiaeth (Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru)
Bethan Thomas, Cyd-ysgrifenyddiaeth (Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru)

**Cynulliad Rhanbarthol De Iwerddon**

Stephen Blair - Cyfarwyddwr
David Kelly – Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Breda Curran (SRA, Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru)
Marie Harnett

**Swyddog Desg yr UE**

Marianne Van De Vorle

**Ymddiheuriadau:**

**Cymru**

Lucy Corfield – Adran Cyfoeth Naturiol Cymru
Des Clifford – Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet
Andy Richards – TUC Cymru
Jessica Williams

**Iwerddon**

Jonathan Earl – Siambrau Iwerddon – Methu â bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau gwyliau Sarah Clarke – Cyngres Undebau Llafur Iwerddon
Stewart Roche – Addysg Uwch Iwerddon
Niall McDonough – Y Sefydliad Morol
Labhaoise McKenna – Sylwedydd